*(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)*

**Cyd-Bwyllgor ERW**
**Dydd Mawrth, 9fed Chwefror, 2021**
**I'w Gadarnhau**
**2.00 - 3.20 yp**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Emlyn Dole [Cadeirydd], Cyngor Sir Caerfyrddin

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Cyngor Dinas Abertawe |
| Y Cynghorydd Rosemarie Harris | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd David Simpson | Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn | Cyngor Sir Ceredigion |
| | |
| Mr Richard Brown | Cyngor Sir Penfro |
| Dr Caroline Turner | Cyngor Sir Powys |
| Mr Eifion Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mr Phil Roberts | Cyngor Dinas Abertawe |
| | |
| Y Cynghorydd Phyl Davies | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd Jennifer Raynor | Cyngor Sir Abertawe |
| Y Cynghorydd Guy Woodham | Cyngor Sir Penfro |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Ceredigion (ERW - Swyddog Adran 151) |
| Ms Elin Prysor | Cyngor Sir Ceredigion (ERW - Swyddog Monitro) |
| Mr Stephen Richards-Downes | Cyngor Sir Penfro (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol) |
| Mr Aneirin Thomas | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mr Greg Morgan | Prif Swyddog ERW |
| Mr Ian Altman | Prif Swyddog ERW |
| Mr Ceri Davies | Cyngor Sir Penfro (ERW - Adnoddau Dynol) |
| Ms Helen Lewis | Cyngor Sir Penfro (ERW - Adnoddau Dynol) |
| Mr Matthew Holder | Cyngor Sir Penfro (ERW - Archwilio Mewnol) |
| Ms Ruth Lee | Rheolwr Cymorth Busnes ERW |

| | |
|---|---|
| Ms Natalie Chambers | Prif Gyfrifydd ERW |
| Ms Ffion Lloyd | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mr Mark Campion | ESTYN |
| Mr Alex Ingram | Llywodraeth Cymru |
| Dr Chris Llewelyn | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Mrs Jessica Laimann | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Mrs Rhian Lloyd | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Ms Siwan Rees | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu) |
| Mr Jonney Corner | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cymorth Technegol) |

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Wendy Walters (Cyngor Sir Caerfyrddin), Gareth Morgans (Cyngor Sir Caerfyrddin) a Joanne Hendy (Cyngor Sir Penfro – Archwilio ERW).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 TACHWEDD 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor ERW a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2020 gan eu bod yn gywir.**

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Ni chodwyd unrhyw faterion yn y cyfarfod.

## 5. GOHEBIAETH

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor yr ohebiaeth ganlynol:

- Llythyr gan Estyn, dyddiedig Ionawr 2021, yn ymwneud â gwaith ERW rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020;
- Llythyr gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried sylwadau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW ar 26 Tachwedd 2020;
- Ymateb drafft gan Gadeirydd y Cyd-bwyllgor i'r llythyr uchod gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW.

**PENDERFYNWYD**

**5.1. Derbyn yr ohebiaeth;**

**5.2. Cymeradwyo llythyr ymateb drafft y Cadeirydd mewn ymateb i'r llythyr gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW.**

## 6. DIWEDDARIAD ERW

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad diweddaru ynghylch y meysydd allweddol canlynol:

- Grwpiau Strategaeth ERW
- Adroddiad Thematig ESTYN
- Cynnig Dysgu Proffesiynol ERW
- Cwricwlwm i Gymru
- Cymorth Cwricwlwm Uwchradd
- Dysgu ac Ymchwil Proffesiynol
- Tegwch a Llesiant
- Arweinyddiaeth
- Sgiliau Digidol
- Cymraeg

Gwnaed sawl sylw yn diolch i ERW am ei waith gwerthfawr yn cefnogi ysgolion yn ystod y pandemig.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai lefel yr ymgysylltu ag adnoddau byw ac adnoddau ar gais yn cael ei monitro.

**PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad diweddaru.**

## 7. DATBLYGIADAU CONSORTIWM

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad cynnydd ar Ddatblygiadau Consortiwm.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Cyfarwyddwyr wedi cytuno ar ddatganiad cenhadaeth drafft gan gynnwys egwyddorion allweddol, nodau craidd a gwerthoedd ar gyfer model newydd ERW fel y nodir yn yr adroddiad. Roedd swyddogion cyfreithiol yn llunio cytundeb cyfreithiol drafft ar gyfer trefniadau yn y dyfodol.

Roedd y Cyfarwyddwr Arweiniol wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol gadarnhau pa wasanaethau fyddai eu hangen ar lefel leol, a oedd yr Awdurdod Lleol yn bwriadu ymuno â'r Consortiwm newydd a pha wasanaethau a gomisiynwyd fyddai eu hangen pe na bai'n dymuno ymuno â'r Consortiwm newydd. Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor nad oedd ymateb gan Gastell-nedd Port Talbot wedi dod i law eto. Ar ôl derbyn hwn, gellid datblygu'r cytundeb cyfreithiol drafft a llunio strwythur costau ar gyfer y model newydd. Roedd cyngor cyfreithiol annibynnol yn cael ei

geisio gan arbenigwyr caffael cyhoeddus mewn perthynas â chomisiynu a'r goblygiadau posibl o ran cyfrifoldebau statudol ar gyfer gwelliannau i ysgolion.

Dywedwyd na fyddai Cyngor Sir Ceredigion yn ymuno â'r model newydd ond ei fod yn bwriadu comisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Byddai Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Abertawe yn dad-wneud dros dro eu hysbysiad ynghylch gadael y Consortiwm er mwyn hwyluso ymestyn y dyddiad gweithredu newydd tan 31 Awst 2021.

Gwnaed sawl sylw yn croesawu ymestyn y dyddiad gweithredu tan 31 Awst 2021 i leihau risgiau ariannol a darparu sefydlogrwydd yn ystod y pandemig.

**PENDERFYNWYD y dylid ymestyn y dyddiad ar gyfer diddymu / terfynu ERW a gweithredu model Consortiwm newydd tan 31 Awst 2021.**

## 8. DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2020-21

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar Ddiweddariad Ariannol ERW 2020-21 fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020, yn ymwneud â'r meysydd canlynol:
- Cyllideb y Tîm Canolog
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Dyraniadau Grant
- Grant Datblygu Disgyblion
- Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol
- Grantiau - Blaenoriaethau Cynllun Busnes
- Risgiau
- Cronfeydd wrth gefn
- Argymhellion

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor nad oedd y Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi newid a bod holl gyfraniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer 2020/21 wedi dod i law.

Nid oedd dyraniadau grant wedi newid fawr ac eithrio llythyr amrywio a oedd yn darparu swm ychwanegol o £35k ar gyfer Cefnogi Dysgwyr Mabwysiedig a Chyllid y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC). Yr alldro a ragwelir yw tanwariant o £229k, yn bennaf oherwydd swyddi gwag a ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig.

Roedd £10k wedi'i ychwanegu at y gyllideb i dalu costau cyfreithiol y newidiadau arfaethedig i ERW, yn seiliedig ar amcangyfrif a roddwyd i'r Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol. Cafodd y gost hon ei chyllido drwy arbedion a wnaed mewn rhannau eraill o'r gyllideb cyllid craidd.

O ran Gwariant wedi'i Gyllidebu ar gyfer Gwella Ysgolion, roedd grwpiau strategaeth ar y trywydd iawn i wario'r gyllideb oedd yn weddill yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Roedd risgiau yn parhau i gael eu nodi o ran

dibyniaeth ar grantiau, ôl troed ERW yn y dyfodol a chronfeydd wrth gefn sy'n lleihau.

**PENDERFYNWYD**

**8.1. Nodi sefyllfa ariannol ERW wedi'i diweddaru fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020;**

**8.2. Cymeradwyo'r diwygiadau i gyllideb y Tîm Canolog ar gyfer 2020-21, sef y costau cyfreithiol ar gyfer y newidiadau a ragwelir i ERW.**

## 9. COFRESTR RISGIAU ERW

Cafodd y Cyd-bwyllgor y Gofrestr Risg yn manylu ar y prif risgiau busnes strategol i amcanion ERW. Dywedwyd bod y risgiau mewn perthynas â chymwysterau 2021 wedi'u diweddaru i adlewyrchu cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD**

**9.1. Nodi'r newid yn y proffil risg;**

**9.2. Derbyn y gofrestr risg.**

## 10. CYNLLUN GWAITH ARCHWILIO MEWNOL

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar y Rhaglen Waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Rhaglen wedi'i pharatoi yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'i bod wedi'i datblygu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr Arweiniol, Cyfarwyddwr Arweiniol, Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro a Phrif Swyddogion Dros Dro.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Rhaglen Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21.**

## 11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**